

20 Awst 2018

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019–20

Yn nhymor yr hydref, bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn craffu ar wahanol feysydd yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019–20. Rydym wedi cael gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid sy'n nodi'r egwyddorion y mae wedi cytuno arnynt o ran gwaith craffu ariannol, ynghyd â nifer o feysydd yr hoffai weld pwyllgorau yn canolbwyntio arnynt o ran eu gwaith craffu.

Yr egwyddorion yw:

- Fforddiadwyedd – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- Blaenoriaethu – trafod a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau;
- Gwerth am arian – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. canlyniadau); a



- Phrosesau'r gyllideb – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaethau a threfniadau rheoli perfformiad a rheoli ariannol.

Dyma'r meysydd:

- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca, yn enwedig mewn perthynas â Chyfradd Treth Incwm Cymru;
- Y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar), yn enwedig o ran ariannu byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau;
- Polisiâu Llywodraeth Cymru i hybu twf economaidd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb rhywiol, a lliniaru diwygio lles;
- Gwaith cynllunio a pharodrydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit;
- Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb; a
- Sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisi.

Fel y gwyddoch, ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig wrth baratoi ar gyfer ei waith craffu ar y gyllideb. Nid ydym am ddyblygu'r ymdrechion hynny, ond os oes unrhyw faterion penodol yr ydych o'r farn y dylai ein Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt, neu unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried fel rhan o'n gwaith craffu ar y gyllideb, mewn unrhyw un o feysydd allweddol ein portffolio, byddem yn ddiolchgar pe gallech eu nodi'n ysgrifenedig a'u hanfon atom.

Ein prif feysydd craffu yw:




- llywodraeth leol;
- tai;
- adfywio cymunedol;
- cydlyniant a diogelwch;
- trechu tlodi;
- cyfle cyfartal;
- hawliau dynol.

Rydym hefyd wedi cytuno i weithio gyda'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i edrych ar ansawdd asesiadau effaith, a sut y mae'r broses gyllidebu yn rhoi ystyriaeth i bobl ifanc sydd o dan anfantais ac sy'n agored i niwed.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech anfon eich sylwadau atom erbyn 11 Hydref. Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am y mater hwn, dylech gysylltu â Naomi Stocks, Clerc y Pwyllgor, ar 0300 200 6222 neu ar naomi.stocks@cynulliad.cymru

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

